COFNOD O BENDERFYNIAD GWEITHREDOL A WNAED GAN Y PRIF WEITHREDWR A'R PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)/SWYDDOG ADRAN 151

RECORD OF AN EXECUTIVE DECISION TAKEN BY THE CHIEF EXECUTIVE AND THE HEAD OF FUNCTION (RESOURCES)/SECTION 151 OFFICER

Dyddiad Cyhoeddi/Publication Date - Dydd Llun/Monday, 25 Mawrth/March, 2019

Dyddiad cau ar gyfer Galw i Mewn/Call-In Cut Off Date - Dydd Llun/Monday, 1 Ebrill/April, 2019 (5:00 p.m.)

PRIF WEITHREDWR / CHIEF EXECUTIVE

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151

1. GWNAED GAN	Y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.
2. Y PENDERFYNIAD	I ddosbarthu £14,500 mewn grantiau o'r Gronfa Degwm i 8 mudiad fel yr amlinellir yn yr adroddiad.
3. GWNAED AR	19 Mawrth 2019
4. Y RHESYMAU AM Y PENDERFYNIAD	I awdurdodi grantiau blynyddol o'r Gronfa Degwm. Mae'r awdurdod i gymeryd y penderfyniad yma wedi'i ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 (gweler ynghlwm – Penderfyniad Pwyllgor Gwaith 30.11.2010).
5. DATGANIAD O DDIDDORDEB	Deilydd Portffolio (Cyllid)
6. CANIATAD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Ddim yn berthnasol
7. YMGYNGHORI, OS O GWBL	Dim
8. YN AGORED I GAEL EI ALW I MEWN?	Ydy
DYDDIAD CYHOEDDI:	25 Mawrth 2019
DYDDIAD GWEITHREDU:	2 Ebrill 2019

CYNGOR SIR YNYS MÔN

ADRODDIAD I'R :	**DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID**
DYDDIAD :	**19 MAWRTH 2019**
PWNC :	**CRONFA'R DEGWM 2018/19**
SWYDDOG(ION) ARWEINIOL	**GWYNNE JONES, PRIF WEITHREDWR**
SWYDDOG CYSWLLT	**CAROL V SNOWDEN – CYMHORTHYDD GWEINYDDOL** **Ffôn/Tel: 01248 752914**

Natur a rheswm am adrodd

Nid yw'r mater hwn wedi cael ei dirprwyo i Swyddogion

A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw

Cyflwyno, er ystyriaeth, y ceisiadau a dderbyniwyd am grant o Gronfa'r Degwm ar gyfer 2018/19. Dylid nodi mai ar ran y Cyngor Sir fel Ymddiriedolwr Cronfa'r Degwm y gwneir y penderfyniad i ddyrannu grantiau o'r Gronfa.

Cyfanswm yr incwm ar gael i geisiadau grant yn 2018/19 yw £2,597 gydag asedau o £65,644 yn y gronfa.

Cyfanswm y grantiau a geisiwyd gan yr ymgeiswyr yn 2018/19 yw £14,500. Dim ond £2,597 o incwm sydd ar gael i gyllido'r grantiau. Mae'n bosibl ariannu'r grantiau i gyd, ond bydd gwerth y gronfa yn lleihau.

Mae'r mudiadau sydd wedi gwneud cais i Gronfa'r Degwm wedi eu rhestru yn Atodiad1.

B – Ystyriaethau

Mae swm y grant â awgrymir ar gyfer pob cais wedi ei gynnwys yn yr adroddiad a gofynnir i'r Deilydd Portffolio benderfynnu cyllido'r holl grantiau gan olygu fod gwerth y portfflio yn lleihau, neu, defnyddio'r gyllideb sydd ar gael a'i ddyrannu yn unol a hyn.

C - Goblygiadau ac Effeithiau

1	**Cyllid / Adran 151**	Ymgynghorywd gyda'r Swyddog Cyllid Adran 151 cyn cyflwyno'r adroddiad.
2	**Swyddog Cyfreithiol / Monitro**	
3	**Adnoddau Dynol**	
4	**Gwasanaethau Eiddo** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
5	**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)**	
6	**Cydraddoldeb** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
7	**Gwrthdlodi a Chymdeithasol** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
8	**Cyfathrebu** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	

9	**Ymgynghori** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
10	**Economaidd**	
11	**Amgylcheddol** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
12	**Trosedd ac Anrhefn** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
13	**Cytundeb Canlyniadau**	

CH – Crynodeb
D – Argymhelliad
Argymhellir mabwysiadu'r dyraniad a nodir yn Atodiad 1 ym mhob achos.
Atodiadau:
Atodiad 1 – Rhestr o'r ceisiadau dderbyniwyd.
Papurau Cefndirol:

CRONFA'R DEGWM 2018/2019 **Atodiad 1/*Appendix 1***
WELSH CHURCH ACTS FUND 2018/2019

Mudiad ***Organisation***	**Pwrpas Elusennol** ***Charitable Purpose***	**Côst** ***Cost***	**Grant ofynnwyd** ***Grant requested*** **£**	**Disgrifiad** ***Description***	**Sylwadau** ***Comments***	**Grant awgrymir** ***Grant suggested*** **£**
Eisteddfodau Lleol / Local Eisteddfodau Talwrn Bodffordd, Llandegfan Marianglas	Ydyw *Yes*	£4,000	£1,000 Yr un / *Each*	Cynnal yr Eisteddfodau *Staging the Eisteddfodau*	Grant blynyddol *Annual grant*	£1,000 Yr un / *Each*
Gwyl Cefni	Ydyw *Yes*	£9,000	£1,500	Cynnal yr Wyl. *Staging the Festival*	Grant blynyddol *Annual grant*	£1,500
Gwyl Caergybi *Holyhead Festival*	*Ydyw Yes*		£3,000	Cynnal yr Wyl *Staging the Festival July*	Grant Blynyddol *Annual grant*	£3,000
Gwyl Gelfyddydau Biwmares *Beaumaris Arts Festival*	Ydyw *Yes*	£41,000	£3,000	Cynnal yr Wyl *Staging the Festival*	Grant blynyddol *Annual grant*	£3,000
Fforwm Gelf Ynys Môn *Anglesey Arts Forum*	Ydyw	£5,000	£3,000	Galluogi'r Fforwm i hyrwyddo a rhedeg Wythnosau Celfyddydau Perfformio Ynys Môn gan gynnwys pedwerydd gwyl ffilm SeeMôr/ Enable the Forum to promote and run the Anglesey Performing Arts Weeks including the fourth SeeMôr film festival.	Grant blynyddol/ *Annual grant*	£3,000

Bydd disgwyl i eisteddfodau a gwyliau gydnabod y gefnogaeth a roddir gan y Cyngor Sir yn eu rhaglenni./
Eisteddfodau and Festivals will be expected to acknowledge the support given by the County Council in their programmes.

DYFODOL PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

		Yn gyfrifol
1	**Ariannol**	
	1.1 Monitro'r Gyllideb	Pwyllgor Gwaith
	1.2 Monitro Rheoli Trysorlys	Pwyllgor Gwaith
	1.3 Dileu Dyledion	Swyddog Adran 151 a'r Aelod Portffolio Cyllid i gymeradwyo
	1.4 Trosglwyddo Arian	(1) hyd at £5k * – Cyfarwyddwr Coprfforaethol Cyllid (2) £5k + Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid a'r Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid
	1.5 Talu grantiau dewisol	Aelod Portffolio'r Gwasanaeth ond mewn achosion lle nad yw'r grantiau'n benodol i wasanaeth, Aelod Portffolio'r Gwasanaeth a'r Aelod Portffolio Cyllid
	1.6 Gweithio mewn Partneriaeth (cymeradwyo cyllid/trefniadau partneriaethol/amrywiadau o bwys)	Aelod Portffolio'r Gwasanaeth a, lle mae hynny'n briodol, yr Aelod Portffolio Cyllid
	1.7 Pennu ffioedd, taliadau, rhenti	Aelod Portffolio'r Gwasanaeth a'r Aelod Portffolio Cyllid ac eithrio yn achos pennu rhenti tai sy'n fater i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfanrwydd.
	1.8 Dyrannu cyllid/Grant Cymell Perfformiad/Cyfleon Newydd/Adfer	Pwyllgor Gwaith
2	**Iawndal/taliadau ex gratia**	Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pennaeth Gwasanaeth

- Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn Ebrill 2006
- Bydd yn golygu cynyddu'r cyfyngiad yn y Cyfansoddiad o £2,500 i £5,000

3	**Eithriadau i Bolisi (e.e. Grantiau Tai / mân-ddaliadau/trosglwyddo asedau / prydlesau ac ati)**	Aelod Portffolio'r Gwasanaeth a'r Aelod Portffolio Cyllid
4	**Y sawl yr ymgynghorir â nhw mewn perthynas â newidiadau i'r Cyfansoddiad**	Pwyllgor Gwaith
5	**Contractau**	Aelod Portffolio'r Gwasanaeth a, lle mae hynny'n briodol, yr Aelod Portffolio Cyllid
6	**Cymeradwyo cynlluniau, polisïau, strategaethau ac ati sydd ddim wedi eu neilltuo fel cyfrifoldeb i'r Cyngor llawn**	Aelod Portffolio'r Gwasanaeth gydag eithriadau y cytunir arnynt
7	**CCA**	Pwyllgor Gwaith
8	**Ymateb i Ymgynghori**	Aelod Portffolio'r Gwasanaeth ac eithrio lle mae'r mater wedi ei ddirprwyo i swyddog i ymateb mewn perthynas â materion technegol /proffesiynol
9	**Penodiadau i gyrff allanol**	Yr Arweinydd mewn ymgynghoriad gydag Arweinyddion Grŵp eraill
10	**Derbyn Cofnodion**	
	10.1 Y Gynghrair Iechyd	Pwyllgor Gwaith
	10.2 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol	Pwyllgor Gwaith
	10.3 Panel Rhiant Corfforaethol	Pwyllgor Gwaith
	10.4 Bwrdd Gwasanaeth Lleol	Pwyllgor Gwaith
	10.5 Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol	Pwyllgor Gwaith
11	**Ymgynghori ar y Gyllideb a'i datblygu**	Pwyllgor Gwaith
12	**Newidiadau o bwys / toriadau i ysgolion / canolfannau hamdden / amgueddfeydd / llyfrgelloedd**	Y Pwyllgor Gwaith, yn amodol ar y Fframwaith Polisi

Dyfyniad o Benderfyniad Cofnodion y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd, 2010:-

GWNEUD PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro - Bod yr Adroddiad ar yr Archwiliad Llywodraethu Corfforaethol wedi nodi'r angen i'r Pwyllgor Gwaith ddatblygu cyfeiriad mwy strategol ac i wario llai o amser ar faterion y byddai'n fwy defnyddiol i Aelodau Portffolio ac/neu swyddogion eu penderfynu dan y trefniadau dirprwyo. Er mwyn hwyluso gweithredu ar y mater hwn, cynhaliwyd adolygiad o gategorïau o benderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith, er mwyn nodi materion y byddai modd i'r Pwyllgor Gwaith eu dirprwyo i'w aelodau unigol ac/neu swyddogion.

Roedd canlyniadau'r archwiliad hwnnw, a'r ymgynghori dilynol gyda'r Pwyllgor Gwaith a'r GAS wedi eu crynhoi yn y matrics yn Atodiad A a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad.

Os bydd y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu derbyn yr argymhelliad, yna byddai'r trefniadau dirprwyo a awdurdodir ganddo yn aros mewn grym hyd oni fyddai'r Pwyllgor Gwaith cyfredol, neu unrhyw Bwyllgor Gwaith yn y dyfodol, yn ychwanegu at neu'n ddileu unrhyw un neu'r cyfan o'r trefniadau dirprwyo.

Gallai'r Pwyllgor Gwaith wneud unrhyw drefniadau dirprwyo ychwanegol ad hoc ar unrhyw adeg. Byddai unrhyw benderfyniadau sydd wedi cael eu dirprwyo i Aelod Portffolio ac/neu swyddog, ar gais yr Aelod Portffolio ac/neu swyddog, yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu arno os yw'r Aelod Portffolio ac/neu'r swyddog o'r farn bod angen i'r Pwyllgor Gwaith llawn ystyried y mater, e.e. oherwydd bod y mater yn debygol o fod yn un cynhennus.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro at eitemau 1.3 a 1.5 a chytunwyd ar newidiadau fel y nodir nhw yn yr argymhelliad isod:

PENDERFYNWYD:-

- **Cytuno, mewn egwyddor, i'r newidiadau a argymhellir yn y Matrics yn Atodiad A yr adroddiad**

- **Codi'r lefel lle bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) yn gallu cymeradwyo dileu dyledion o £2,500 i £5,000.**

- **Y dylai penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn Ebrill 2006 aros fel :-**

  "yn unol â Rheol Gweithdrefn contractau 4.8.4.9 (ix) fod y Pwyllgor Gwaith yn pennu uchafswm y bydd modd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) ddileu heb awdurdod pellach, symiau unigol sy'n is na'r uchafswm:-

  dim uchafswm pan fo'r dyledwr yn fethdalwr; neu pan fo'r dyledwr yn gwmni a ddiddymwyd; neu pan fo'r ddyled wedi cael ei dileu gan lys; neu pan fo'r dyledwr wedi ei garcharu yng nghyswllt y ddyled".

- **y dylai'r geiriad yn 1.5 (talu grantiau dewisol) ddarllen:-**

  'Dylai'r Aelod Portffolio ar gyfer y gwasanaeth wneud y penderfyniad, ond onid yw grant yn benodol i'r gwasanaeth, yna bydd yr Aelod Portffolio Cyllid yn gwneud y penderfyniad'.